Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun 5 Chwefror 2018 yn Festri Capel Penuwch am 8 o'r gloch.

Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday 5 February 2018 at Penuwch Chapel Vestry at 8pm

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol.
The Chair welcomed everyone to the monthly meeting.

Presennol/*Present*
Cyng Paul Rooke (Gadair/*Chair*), Gwilym Evans, Gerwyn Ebenezer, Emyr Jones, Myrddin James, Dafydd Morse, Eirian Jones, Rhian Turner, John Evans, Cyng Rhodri Evans a PCSO John Evans

Ymddiheuriadau/*Apologies* – Cyng Gwenfair Owen, Daniel Thomas & Cyng Beryl Evans.

Datgan Diddordeb/*Declaring an Interest –* Neb/*No one*

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/*Minutes of the last meeting*
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Cyng John Evans ac eiliwyd gan Cyng Rhian Turner.
Cllr John Evans proposed accepting the Minutes of the last meeting, and this was seconded by Cllr Rhian Turner.

Materion yn codi o'r cofnodion/*Matters arising from the Minutes*

- Glwyd parc Llangeitho wedi cael ei thynni oddi yno er mwyn rhoi'r byffer arno'n iawn. Clerc i gysylltu â Ray Burrell i gael ychydig o baent i fynd ar y glwyd.
- *Llangeitho park's gate to be removed from its location so that a buffer can be fitted correctly. Clerk to contact Ray Burrell to get some paint for the gate.*
- Angen cymorth ar y Clerc i lenwi'r ffurflen grant CADW ar gyfer cynnig am grant i lanhau'r milwr ar gylchfan Llangeitho. Cynigwyd enw Cyng Eirian Jones a Cyng Daniel Thomas i gynorthwyo. Soniwyd bod Kieran Elliott, arbenigwr mewn cadwraeth wedi bod allan yn edrych ar gyflwr y milwr, disgwyl adroddiad oddi wrth Mr Elliott.
- *Clerk requests assistance to complete the CADW forms for an application for a grant to clean the war memorial near Llangeitho roundabout. Cllr Eirian Jones and Cllr Daniel Thomas offered assistance. It was noted that Kieran Elliott, an expert in the field of conservation, had been to look at the war memorial. A report was expected from Mr Elliott.*
- Henry Bulman ddim wedi dod i ben i wneud gwaith newid y boards ffasia ar cysgodfan bws Stags Head hyd yma.
- *Henry Bulman has been unable to complete the work of changing the fascia boards at Stags Head bus shelter as yet.*
- Diolchwyd i Cyng Rhian Turner am gwblhau a dychwelyd y ffurflen 'Ymateb i Ymgynghoriad – Rhwydwaith Trawma Mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys' – copi ar ffeil er gwybodaeth.
- *Cllr Rhian Turner was thanked for completing and returning the questionnaire for the consultation document, 'Major Trauma Network for South and West Wales and South Powys'. There is a copy on file, for reference.*
- Derbyniwyd adroddiad ar lafar gan Cyng Rhian Turner a Cyng Rhodri Evans o'r cyfarfod ar y cyd rhwng Cynghorau Tref a Chymuned a Chyngor Sir Ceredigion a gynhaliwyd yn Llambed ar 9fed o Ionawr 2018.
- *Verbal report received from Cllr Rhian Turner and Cllr Rhodri Evans regarding the meeting between Ceredigion County Council and the town and community councils held in Lampeter on 9 January 2018.*
- Soniwyd bod yr Adran Gyfreithiol Cyngor Sir Ceredigion yn edrych mewn i'r cais cynllunio yn Tyrhos, Llangeitho.
- *It was noted that the Legal Department of Ceredigion County Council are looking into the planning application at Tyrhos, Llangeitho.*
- Cadarnhad wedi'u dderbyn bod y llinellau melyn i ddod oddi amgylch Ysgol Llangeitho yn y dyfodol agos. Cyngor Sir Ceredigion yn edrych mewn i ail baentio'r arwydd STOP ar y cylchfan yn fwy clir.
- *Confirmation received that yellow lines will be painted in the vicinity of the school in Llangeitho in the near future. Ceredigion County Council looking into repainting more clearly the STOP sign on the roundabout.*

Gohebiaeth/*Correspondence*

- Derbyniwyd e-bost oddi wrth Rhydian Wilson yn gwahodd y Cadeirydd i'r agoriad swyddogol o'r Ganolfan Hamdden o dan y drefn newydd, Cyng Rhian Turner i fynychu.
- *Email received from Rhydian Wilson inviting the Chair to the official opening of the Leisure Centre in Tregaron under new management. Cllr Rhian Turner to attend.*
- Llythyr o gyflwyniad a phosteri wedi'u dderbyn oddi wrth Ben Lake AS.
- *Letter of introduction and posters received from Ben Lake MP.*

- Posteri wedi'u dderbyn oddi wrth Elin Jones AC.
- *Posters received from Elin Jones AM.*
- Llythyr o gyflwyniad i Gadeirydd newydd Un Llais Cymru, Cyng Mike Cuddy wedi'u dderbyn a'i gylchredeg drwy e-bost i'r Cynghorwyr.
- *Letter of introduction for the new Chair of One Voice Wales, Cllr Mike Cuddy, has been received and distributed by email to the Councillors.*
- Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Arwel Jones a Ray Williams, Cyd ysgrifenyddion Dathliadau daucanmlwyddiant Cymru – Ohio 2018. Cytunwyd ar gynnig Cyng John Evans ac eiliwyd gan Cyng Dafydd Morse i gyfrannu £200 tuag at y dathliadau. Clerc i drefnu.
- *Request for financial assistance received from Arwel Jones and Ray Williams, joint secretaries of the Wales-Ohio 200-year celebrations. It was agreed, on the proposal of Cllr John Evans, and seconded by Cllr Dafydd Morse, to contribute £200 towards the celebratory commemorations. Clerk to organise.*

Cyfrifon/*Accounts*

- Cyflog Clerc / *Clerk salary* (5 mis/*months*) £482.30
- Costau etholiadau £304.30 – Trafodwyd y dull cyfrifo ar gyfer costau'r etholiadau a chytunwyd i ysgrifennu at y Cyngor Sir yn datgan ein siom i beidio â gweithio allan ar y nifer o etholwyr ym mhob plwyf i'r drefn nifer o ranbarthau pleidleisio, Clerc i anfon copi o'r llythyr i Elin Jones AC a Ben Lake AS.
- *Election expenses £304.30. Accounting methods regarding the cost of elections were discussed, and it was agreed to write to the County Council to notify them of our disappointment that the costs are not calculated by the number of constituents in each parish, rather, the number in a region. Clerk to send a copy of the letter to Elin Jones AM and Ben Lake MP.*
- Cyngor Sir Ceredigion £263.68 (Golau stryd – wedi'u dalu dros wyliau'r Nadolig)
- *Ceredigion County Council £263.68 (Street lighting – paid over the Christmas holiday)*
- Balans y banc ar 31.01.2018 £9,192.60
- *Balance in the bank on 31.01.2018 £9,192.60*

Cytunwyd i dalu'r infoisis uchod ar gynnig Cyng Eirian Jones ac eiliwyd gan Cyng Myrddin James.
Payment of invoices was proposed by Cllr Eirian Jones, and this was seconded by Cllr Myrddin James.

Cyngor Sir Ceredigion/*Ceredigion County Council*

Derbyniwyd crynodeb o gynlluniau'r Cyngor Sir oddi wrth Cyng Rhodri Evans.
A summary of the County Council's plans was received from Cllr Rhodri Evans.

Comisiwn Ffiniau/*Boundaries' Commission*

Cylchredwyd linc i 'Arolwg o drefniadau etholiadol Sir Ceredigion – Adroddiad Cynigion Drafft' i'r Cynghorwyr a thrafodwyd y cynigion yn drylwyr a chytunwyd i gynnal cyfarfod arbennig ar gyfer ymateb fel Cyngor Cymuned ar nos Fercher 14 Chwefror 2018 am 8 o'r gloch. Gwahoddir y Cynghorwyr i gyd i fod yn bresennol.
A link for 'Survey for Election Arrangements – Draft Proposal Report' was distributed to the Councillors and the proposals were discussed thoroughly and it was agreed to hold a special meeting of the Community Council to discuss further and draft a response. The meeting to be held on Wednesday, 14 February 2018, at 8p.m. All Councillors are invited to attend.

Unrhyw Fater Arall/*Any Other Business*

- Soniwyd am y twll oedd yn y ffordd ar riw Pontcoy, Tyncelyn, ar ben lon Maesrhug, oedd angen sylw.
- *Pothole in the road on Pontcoy hill, Tyncelyn, at the top of Maesrhug lane, needs attention.*
- Dwr yn cronni ar dro'r Eglwys Ceitho, Llangeitho angen sylw.
- *Water accumulating on the bend near St Ceitho's Church, Llangeitho, needs attention.*
- Derbyniwyd adroddiad ar lafar gan PCSO John Evans.
- *Verbal report received from PCSO John Evans.*
- Nifer o dyllau yn y ffordd heibio Penrhiw Villa am Llwynpiod angen ei llenwi.
- *Many potholes in the road past Penrhiw Villa towards Llwynpiod and they need filling.*
- Cyng Eirian Jones wedi sôn bod Pwyllgor Sul y Cofio am ganiatâd i blannu popis ar gylchfan Llangeitho ond trafodwyd y mater a chrybwyllwyd iddynt blannu nhw wrth ymyl ffens y parc.
- *Cllr Eirian Jones mentioned that the committee organising the Remembrance Day service wish to have permission to plant poppies on the roundabout itself in Llangeitho. This was discussed and it was suggested that the poppies be planted near the park's fence instead.*
- Estynnwyd llongyfarchiadau i Ysgol Rhos Helyg ar ei llwyddiant yn ddiweddar yn y Bondio Melyn a Carol yr Ŵyl. Clerc i anfon llythyr iddynt ar ei llwyddiant.

- *Congratulations were extended to Rhos Helyg School on their recent success in Bondio Melyn and a Christmas carol competition. Clerk to send a letter to them.*
- Soniwyd am y tyllau mawr oedd wedi dod ar ben lôn Cymorthfa/Pentre Padarn oherwydd bod y ffordd yn gul a'r cerbydau'n gorfod tynnu mewn i ben lôn y ddau i adael cerbydau eraill i fynd heibio.
- *It was noted that there were large potholes at the top of Cymorthfa/Pentre Padarn's lane because the road was narrow and vehicles were having to pull in at the top of the lane so that other vehicles could pass.*

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/*Date and Location of next meeting*

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd Jiwbili Llangeitho, ar 5ed o Fawrth 2018 am 8 o'r gloch.
The next meeting will be held at Jubilee Hall, Llangeitho, on Monday, 5 March 2018, at 8p.m.